



www.ysgolbotwnnog.org



YN Y BWLETIN TYMOR YMA

- ✓ CYSYLLTU
- ✓ BLWYDDYN 11, 2018
- ✓ PRESENOLDEB
- ✓ FFONAU SYMUDOL
- ✓ DYDDIADAU ARHOLIADAU
- ✓ DYDDIAU PWYSIG ERAILL
- ... A MWY

GAIR GAN Y PRIFATHRO

Croeso'n ôl i bawb ar ddechrau blwyddyn newydd. Croeso arbennig i'r 79 disgybl sydd wedi cychwyn ym mlwyddyn 7.

Byddwn yn gyrru bwletin tymhorol i chi gyda gwybodaeth bwysig am ddiwyddiadau yn yr ysgol.


Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach yna peidiwch ag oedi â chysylltu.

Hysbyswch ni ar unwaith am unrhyw newid i'ch manylion cyswllt - rhif ffôn cartref, symudol neu ebost, os gwelwch yn dda.

Dymuniadau gorau ar gyfer blwyddyn llwyddiannus a phrysur.

CYSYLLTU Â'R YSGOL

Os oes unrhyw beth yn eich pryderu ynglŷn â bywyd ysgol eich mab/merch yna cysylltwch â ni:

 **01758 730220**

 **pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk**

neu gan ddefnyddio'r ffurflen ar lein ar ein gwefan

 **www.ysgolbotwnnog.org/cysylltu.php**

Mi geisiwn ymateb i'ch pryder o fewn 24 awr.

Ymweld â'r Ysgol

Er diogelwch mae angen i pob ymwelydd gofrestru yn y Brif Swyddfa wrth gyrraedd yr Ysgol.

CYSYLLTU Â'R CARTREF

Byddwn yn ceisio gyrru gwybodaeth i gartrefi ein disgyblion yn weddol aml - gwybodaeth am ddyddiadau pwysig, gweithgareddau ac yn y blaen. Byddwn hefyd angen cysylltu mewn argyfwng o bryd i'w gilydd.

E-bost

Tra ein bod yn dal i yrru llythyrau ar bapur, mae hi'n gallu bod yn fwy cyfleus a dibynadwy gyrru neges ar ebost neu hyd yn oed, os oes mater brys yn codi, drwy neges destun.

I wneud hyn mor hwylus â phosibl hoffwn i chi sicrhau bod swyddfa'r ysgol gyda'ch manylion ebost cywir.

Os oes gennych gyfeiriad ebost ond heb dderbyn y bwletin yma drwy ebost a fuasech cystal â gyrru neges i - pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk i ddweud hynny gan nodi enw a dosbarth eich plentyn.

Negeseuon Testun

Dylech fod wedi derbyn neges destun gan yr ysgol yn nodi bod y bwletin ysgol ar y ffordd. Unwaith eto, os nad ydych wedi derbyn y neges honno yna cysylltwch â Mrs Nerys Williams yn y swyddfa neu ebostiwch pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk

BLWYDDYN 11 - 2018

CANLYNIADAU

Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 11 ar eu canlyniadau arholiad rhagorol. Llwyddodd 100% o ddisgyblion blwyddyn 11 i ennill 5 neu ragor o raddau TGAU neu gyffelyb, gydag 86% yn ennill o leiaf 5 gradd C neu well a hanner y disgyblion yn ennill o leiaf un gradd A neu A*. Braff yw adrodd bod canlyniadau blwyddyn 11 y llynedd ymysg y gorau o holl ysgolion uwchradd Gwynedd.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a phob dymuniad da iddynt ar gyfer y dyfodol.

Diolch i'r athrawon a'r rhieni am baratoi'r disgyblion mor drwyadl a'u cefnogi dros y ddwy flynedd diwethaf.

Gwerthfawrogir y cardiau a rhoddion a ddaeth gan ddisgyblion a rhieni yn diolch i'r ysgol.

PROM 2018

Cafodd Blwyddyn 11 gyfle i ymlacio ar ôl yr arholiadau yn y Prom a gynhaliwyd yn Nant Gwrtheyrn. Cafwyd prynhawn braff iawn yno a chyflwynwyd gwobrau'r ysgol i'r disgyblion.



PROM 2018

Pawb yn edrych yn smart ar eu ffordd i'r Prom yn Nant Gwrtheyrn

GWOBRAU'R YSGOL 2018



GWOBR GOFFA LEWIS ROBERTS
Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth,
Mathemateg, Technoleg
Jack Scott

TLWS COFFA
IDRIS WILLIAMS
Dinesydd y flwyddyn
Mari Lois Evans

TARIAN
PENCAMPWR
CHWARAEON
Tomos Sion Jones

GWOBR URDD LIFRAI CYMRU
Myfyriwr rhagorol
Aimee Jones

DYSGWR CYMRAEG
Y FLWYDDYN
Daniel Starkey

TLWS COFFA GLYN JONES
Chwaraewr rygbi addawol
Now Williams

FFONAU SYMUDOL—RHEOL NEWYDD

Mae'r rheol ar gyfer y defnydd o ffonau symudol (a theclynau cyfathrebu cludadwy eraill) wedi newid.

- **Ni chaniateir y defnydd o ffonau symudol na theclynau cyfathrebu cludadwy o unrhyw fath yn ystod oriau ysgol (8:30 - 3:35)** gan gynnwys ar y daith i'r gwersi Addysg Gorfforol yn y ganolfan hamdden (bl. 10/11).
- Os ydych angen cysylltu gyda'ch mab/merch mewn argyfwng gallwch gysylltu gyda swyddfa'r ysgol ac yn yr un modd os oes wir angen i'ch mab/merch eich ffonio chi gallant wneud hynny o'r swyddfa.
- Os ydynt yn dod â ffôn gyda nhw i'r ysgol yna dylid eu diffodd wrth gyrraedd yr ysgol, a'i chadw wedi ei diffodd ac o'r golwg nes iddynt adael tir yr ysgol diwedd y dydd - os dymunant gallant adael eu ffôn yn y swyddfa yn ystod y dydd.
- Os ydi disgyblion yn torri'r rheol yma, byddwn yn cymryd y ffôn oddi arnynt ac yn ei chadw'n ddiogel tan diwedd y dydd.
- Os ydi disgybl yn torri'r rheol fwy nac unwaith, byddwn yn cymryd y ffôn oddi arnynt ac yn ei chadw'n ddiogel hyd nes y byddwch chi yn gallu dod i drafod y sefyllfa a chasglu'r ffôn o'r ysgol.
- Ystyriwch caniatáu mynd â ffôn ar deithiau sydd y tu allan i oriau arferol ysgol er hwylustod - ond dim ond i'w defnyddio yn ôl canllawiau'r athrawon sydd yn gyfrifol am y daith.

Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am achosion o ddwyn, colli neu ddifrod i ffonau symudol na theclynau cyfathrebu cludadwy eraill.

CROESAWN UNRHYW SYLWADAU SYDD GENNYCH PARTHED Y RHEOL HON.

STAFF

Croeso i staff newydd

Croeso i Mr Tomos Williams sydd yn ymuno gyda'r Adran Wyddoniaeth.

Croeso'n ôl i Mr Gwyn Meirion Jones a Mr Geraint Williams, fydd yn dysgu Mathemateg a Busnes dros gyfnod mamolaeth Mrs Lowri Williams. Llongyfarchiadau i Mrs Williams ar enedigeth hogyn bach.

Croeso hefyd i Miss Dawn Williams a Miss Manon Wyn Williams sydd yn ymuno â'r tîm cymorthyddion dosbarth.

Dymuniadau gorau

Dymunwn yn dda i Miss Catrin Davies wrth iddi gychwyn ar swydd newydd yn Ysgol Tryfan . Dymuniadau gorau i Miss Sioned Thomas, fu yma dros gyfnod mamolaeth, wrth iddi ddechrau ar ei swydd yn Ysgol David Hughes. Diolch i'r ddwy ohonynt am eu gwaith caled.

MEDDYGINIAETH YN YR YSGOL

Os ydych am i'ch plentyn ddod â meddyginiaeth i'r ysgol mae angen [llenwi ffurflen ganiatâd 3B](#). Cofiwch fod rhaid i bob meddyginiaeth gael ei gadw yn y swyddfa ac eithrio pwmp asthma (mewn rhai achosion). Mae posib gweld y polisi llawn neu lawrlwytho'r ffurflen ganiatâd ar wefan yr ysgol (RHIENI - DOGFENNAU) neu cysylltwch â'r swyddfa os ydych yn dymuno copi papur.

TYWYDD GARW A CHAU'R YSGOL

Os cyfyd sefyllfa pan fo rhaid cau'r ysgol oherwydd rhesymau tu allan i'n rheolaeth - tywydd, dim trydan neu ddŵr, ac yn y blaen; byddwn yn ceisio gyrru neges destun i'r cartref i'ch hysbysu. Gallwn yrru neges i bob cartref o fewn munudau er mwyn eich hysbysu - cyn belled fod gennym rif ffôn symudol dilys.

Byddwn hefyd yn rhoi cyhoeddiad ar Radio Cymru ac ar wefan y Cyngor - www.gwynedd.gov.uk cyn gynted â phosibl.

Os oes rhaid cau'r ysgol yn ystod y dydd a bod angen anfon y plant gartref oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch - dyma fydd y drefn:-

- i. hysbysu'r cartref drwy ebost a/neu neges destun,
- ii. y plant i fynd gartref ar y bws (os mai felly maent yn dod i'r ysgol),
- iii. wedi dod oddi ar y bws y plant i fynd i'w cartrefi neu i dŷ perthynas neu ffrind (yn ôl eich cyfarwyddyd chi fel rhieni).

PRESENOLDEB

Mae presenoldeb da yn parhau yn flaenoriaeth yn yr Ysgol. Gyda'ch cefnogaeth chi 'roedd presenoldeb yr ysgol yn 95% - ein targed uchelgeisiol ar gyfer eleni ydi gwella eto ar hyn. **Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol os yw'r disgyblion i fanteisio yn llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.**

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol oedd â 100% presenoldeb am y flwyddyn ysgol 2017/18 Rhoddwyd gwobr o £10 yr un iddynt.

7 Madrun - Osian ab Ieuan*, Ioan Williams*

7 Meillionydd - Chris Williams*

8 Madrun - Josh Cullen*

8 Meillionydd - Mali Madrun

9 Madrun - Lisi Chidley*, Alyssa Rudge

9 Meillionydd - Elwood Mewes*

9 Mellteyrn - Elin Roberts

10 Mellteyrn - Tomos Hughes, Mali Richards

11 Madrun - Owain Roberts, Huw Jones-Evans*

11 Meillionydd - James Brookes*, Morgan Jones*, Tomos Sion Jones

11 Mellteyrn - Elin Jones-Evans, Daniel Starkey

* - heb golli 'run diwrnod o ysgol ers dechrau yn Ysgol Botwnnog.

ABSENOLDEB - TREFN CYSYLLTU

Er mwyn sicrhau bod pawb sydd i fod yn yr ysgol yn bresennol, gofynnwn i chi gysylltu â'r ysgol **POB bore** unrhyw absenoldeb fel ein bod yn gwybod os yw eich mab/merch i fod yn yr ysgol ai peidio y diwrnod hwnnw.

Gofynnwn i chi adael i ni wybod os yw eich mab/merch yn absennol drwy ffonio 01758 730220 rhwng 8:00 a 9:15.

Os na fydd yr ysgol wedi derbyn galwad ffôn erbyn 9.15 o'r gloch yn dweud wrthym pam nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna byddwn yn cysylltu gyda'r cartref neu'r man gwaith.

Os yw eich mab/merch yn cyrraedd yn hwyr—dylent sicrhau eu bod yn cofrestru yn y swyddfa.

CASGLU EICH PLENTYN YN YSTOD Y DYDD

Os ydych angen casglu eich mab/merch yn ystod y dydd yna mae angen gadael i'r swyddfa wybod. Dylai disgyblion sicrhau eu bod yn cofrestru allan o'r ysgol cyn gadael y safle, a chofrestru yn ôl i mewn os ydynt yn dychwelyd i'r ysgol yn ystod y dydd.

SALWCH YN YSTOD Y DYDD

Os yw eich mab/merch yn sâl yn ystod y dydd ac angen eu casglu yna bydd aelod o staff yr ysgol yn cysylltu â chi. Nid oes caniatâd i ddisgyblion gysylltu yn uniongyrchol gyda chi i drefnu eu casglu pan fônt yn sâl.

CAIS AM WYLIAU TEULU YN YSTOD Y TYMOR

Mae cyfarwyddiadau gan y Llywodraeth drwy'r Cyngor Sir ynglŷn â chyfrifoldeb yr ysgol wrth awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor ym mholisi Presenoldeb y Llywodraethwyr. Er mwyn i ni allu awdurdodi unrhyw wyliau yn ystod y tymor ysgol mae'n rhaid i rieni wneud **cais ysgrifenedig i'r ysgol cyn mynd ar y gwyliau.**

Mae gan Corff Llywodraethu'r Ysgol ddisgresiwn sydd wedi ei ddirprwyo ganddynt i'r Tîm Rheoli i awdurdodi gwyliau ai peidio. Bydd hyn yn dibynnu ar hyd y gwyliau ac unrhyw wyliau blaenorol, cyfradd presenoldeb cyfredol y disgybl, yr adeg o'r flwyddyn ac effaith ar ddilyniant addysgol y disgybl, os yw'n tarfu ar asesiadau / arholiadau. Ni fyddwn yn awdurdodi mwy na 5 diwrnod o wyliau mewn unrhyw flwyddyn ysgol.

Os na fyddwn yn gallu awdurdodi gwyliau o flaen llaw bydd yn ymddangos fel absenoldeb anawdurdodedig ar record y disgybl.

NI FYDDWN YN AWDURDODI ABSENOLDEB GWYLIAU YN YSTOD Y TYMOR I DDISGYBLION BLYNYDDOEDD 10 AC 11 GAN EI FOD YN ANORFOD AM GAEL EFFAITH AR GYNNYDD EICH MAB/MERCH, ONI BAI BOD YNA AMGYLCHIADAU EITHRIADOL IAWN.

BLWYDDYN 10 AC 11

Mae'r gwaith a gyflawnir yn ystod y ddwy flynedd yma yn gallu llywio gweddill bywyd eich mab/merch. Felly mae presenoldeb rhagorol yn dyngedfennol yn ystod y DDWY flynedd.

Rydym yma i geisio, gyda'ch cefnogaeth chi, sicrhau bod pob un disgybl yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

ARHOLIADAU ALLANOL

Bydd disgyblion blwyddyn 10 ac 11 yn sefyll arholiadau **ALLANOL** (sydd **YN** cyfrif tuag at eu graddau terfynol) ar sawl adeg yn ystod y ddwy flynedd:

Gweler y dudalen Dyddiadau Pwysig am ragor o fanylion.

ASESIADAU DAN REOLAETH / ASESIADAU DI-ARHOLIAD (*Gwaith cwrs*)

Mae Aseidiadau dan Reolaeth ac Aseidiadau di-arholiad (*gwaith cwrs gynt*) yn bwysig yn y rhan fwyaf o bynciau TGAU. Maent yn cyfrif rhwng 20% a 60% o'r marc terfynol ym mron bob pwnc.

Mae'r rhain yn cael eu cynnal drwy gydol blwyddyn 10 ac 11 mewn gwahanol bynciau - o'r wers gyntaf ym mlwyddyn 10 tan fis Mai Blwyddyn 11.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gorfod cael eu cwblhau o fewn hyn a hyn o oriau mewn gwersi dan oruchwyliaeth athro - felly os yw eich mab/merch yn absennol o'r gwersi yna bydd rhaid iddynt ddal i fyny amser cinio neu ar ôl ysgol.

TYSTYSGRIF HER SGILIAU A BAGLORIAETH CYMRU (BAC)

Mae cwrs BAC yn cael ei ddilyn gan bawb ym mlynnyddoedd 10 ac 11. Ym mlwyddyn 10 bydd rhaid cwblhau 3 her fydd yn cael eu hasesu o dan reolaeth a'u marcio yn yr ysgol. Ym mlwyddyn 11 bydd prosiect ymchwil unigol yn cael ei gwblhau gan bawb, wedi ei selio ar ddyheuadur'r disgybl i'r dyfodol. Ar ddiwedd cwblhau'r 4 darn gwaith bydd gradd yn cael ei ddyfarnu —hwn fydd y Dystysgrif Her Sgiliau, sydd yn gywerth â TGAU a sydd gyda graddau tebyg.

I ennill y gymhwyster BAC rhaid i ddisgybl hefyd basio 5 arholiad TGAU neu gyfatebol gan gynnwys Mathemateg a laith.

GWAITH CARTREF

Mae gwaith cartref yn arf bwysig i wella safon gwaith eich mab/merch. Mae cadw llygad ar waith eich mab/merch wrth iddynt gwblhau eu gwaith cartref yn ffordd dda i gadw golwg ar sut maent yn gwneud yn yr ysgol. Cofnodir gwaith cartref ar daflen bwrpasol sydd wedi ei gludo ym mhob llyfr.

Os nad ydi disgybl yn cwblhau gwaith cartref yna byddant yn cael eu cosbi:

- Bydd yr athro/awes pwnc yn rhoi rhybudd yn y lle cyntaf;
- Os nad yw'r gwaith yn cael ei gwblhau yn dilyn y rhybudd yna cedwir y disgybl i mewn amser egwyl/cinio;
- Gall yr athro/awes pwnc gyfeirio disgybl sydd yn parhau i beidio â chwblhau gwaith i sylw'r pennaeth adran fydd yn arwain at y disgybl yn cael ei fonitro neu ei gadw fewn am gyfnod hirach;
- Os nad yw hyn yn datrys y broblem, cyfeirir y disgybl at y Dirprwy Brifathro neu'r Prifathro fydd yn cysylltu gyda'r rhieni/gwarcheidwaid i drafod y ffordd ymlaen. Gall hyn gynnwys eu cadw yn y Clwb Gwaith Cartref ar ôl ysgol neu eu rhwystro rhag cael mynd ar deithiau neu ymweliadau.

Dilynir yr un camau os bydd disgybl yn camymddwyn mewn unrhyw ffordd arall mewn gwersi neu o gwmpas yr ysgol.

YSTAFELL WAITH/ANOAGAETH A CHLWB GWAITH CARTREF

Gall y disgyblion fanteisio ar y cyfle i weithio amser egwyl/cinio yn y Llyfrgell neu'r Ystafell Adnoddau lle mae modd cael cefnogaeth aelod o'r staff annog os ydynt yn cael trafferth gyda'u gwaith.

Cynhelir clwb gwaith cartref bob pŵawn Llun a phŵawn Mercher o 3:30 tan 5:00. Bydd aelod o staff annog yr ysgol yn bresennol i gynorthwyo disgyblion gyda'u gwaith.

Mae bws mini'r ysgol ar gael i ddanfôn disgyblion adref os nad ydych yn gallu casglu eich mab/merch - mae angen archebu lle gyda Mrs Grace Roberts.

ARHOLIADAU / ASESIADAU

ARHOLIADAU AC ASESIADAU SWYDDOGOL - ALLANOL - YN CYFRIF TUAG AT RADDAU TGAU/TLM

Cymraeg—Llafar (Bl. 11 set 1/2).....	Tachwedd 5
Cymraeg—Llafar (Bl. 11 set 2)	Tachwedd 20
Saesneg - Llafar (Bl. 11)	Rhagfyr 3-12
Cymraeg—Llafar (Bl. 11 set 1)	Ionawr 14
Celf (Bl. 11).....	Mawrth 21-22
Drama (Bl. 10).....	Mawrth 25-30
Cymraeg Llên – Llafar (Bl. 11)	Ebrill 8-9
Saesneg Llafar (Bl. 10).....	Mehafin 17—24
Cymraeg Llên – Llafar (Bl. 10).....	Gorffennaf 2-3

ARHOLIADAU TGAU HAF (Bl. 10/11) Mai 7 - Mehefin 18

BYDD ASESIADAU DAN REOLAETH SYDD YN CYFRIF TUAG AT RADDAU TGAU TERFYNNOL YN CAEL EU CYNNAL GYDOL BLYNYDDOEDD 10 AC 11

BLWYDDYN 7,8,9

PROFION DARLLEN A RHIFEDD CENEDLAETHOL	Ebrill 29 - Mai 14
--	--------------------

ARHOLIADAU MEWNOL

Blwyddyn 11 (TGAU) Ffug.....	Chwefror 7—13
Blwyddyn 10	Ebrill 8—12
Blwyddyn 7, 8, 9	Mehafin 24 – Gorffennaf 5

Gwybodaeth bellach am arholiadau Bl 10 ac 11 i ddod—Efallai y bydd rhai newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Bydd pob disgybl yn derbyn amserlen bersonol yn nodi eu harholiadau cyn pob cyfnod arholi.

DIWRNOD CANLYNIADAU TGAU—AWST 22, 2019

RHAI DYDDIADAU PWYSIG ERAILL

TYMOR YR HYDREF 2018 (disgyblion) - Medi 5 - Rhagfyr 21

Gwyliau Hanner Tymor	Hydref 27 - Tachwedd 4
Gwyliau Nadolig	Rhagfyr 22, 2018 - Ionawr 6, 2019

TYMOR Y GWANWYN 2019 - Ionawr 7 – Ebrill 12

Gwyliau Hanner Tymor	Chwefror 23 - Mawrth 3
Gwyliau'r Pasg	Ebrill 13—Ebrill 28

TYMOR YR HAF 2019 (disgyblion) - Ebrill 29 - Gorffennaf 20

Calan Mai	Llun, Mai 6
Gwyliau Hanner Tymor	Mai 25 - Mehefin 2
Gwyliau'r Haf yn cychwyn i ddisgyblion	Gorffennaf 20

DIWRNODAU HYFFORDDIANT STAFF (Dim ysgol i'r plant)

Dydd Llun, Medi 3, 2018
Dydd Mawrth, Medi 4, 2018
Dydd Gwener, Hydref 5, 2018
Dydd Llun, Gorffennaf 22, 2019 (ymestyn gwyliau Haf i ddisgyblion)
Un diwrnod arall i'w gadarnhau yn ystod y flwyddyn

CYFARFOD RHIENI AC ATHRAWON

I DRAFOD GWAITH DISGYBLION AR BRYNHAWN MAWRTH - 4.00 y.h. HYD AT 6.00 y.h.

Blwyddyn 7	Rhagfyr 11
Blwyddyn 8	Ionawr 22
Blwyddyn 9 (yn cynnwys cyfle i drafod opsiynau pynciau bl 10 (4:00-7:00y.h)).....	Mai 14
Blwyddyn 10	Ebrill 30
Blwyddyn 11	Hydref 23
Blwyddyn 11 (Ail gyfarfod)	Chwefror 19

MARCIO GWAITH DISGYBLION



YSGOL BOTWNNOG

Symbolau Marcio ac Adborth

Marking & Feedback Symbols

Eleni, rydym yn arborfi gyda pholisi marcio newydd sydd yn canolbwyntio mwy ar y disgyblion yn dysgu o'u camgymeriadau.

Wrth farcio gwaith bydd athrawon yn amlygu rhan o'r gwaith sydd angen ei gywiro mewn rhyw fodd gan ddefnyddio bocs melyn (Bocs Gwella Gwaith)

Bydd unrhyw waith sydd wedi ei gynnwys mewn bocs melyn angen ei wella.

Gallai hyn gynnwys:

- ailddrafftio,
- cywiro gwallau,
- ymhelaethu,
- gwella cyflwyniad.

Byddwn hefyd yn defnyddio symbolau marcio sydd yn nodi beth yw'r gwallau yn y gwaith.

Caiff y drefn hon ei egluro i'r disgyblion yn y gwersi.

Gyferbyn mae copi o'r symbolau y byddwn yn eu defnyddio.

Os hoffech drafod ymhellach mae croeso i chi gysylltu.

Symbolau Marcio ac Adborth	Bocs Gwella Gwaith	Work Improvement Box
	Gwaith sydd angen ei wella, cywiro neu ail-ddrafftio i ymateb i farcio ac adborth athrawon.	Work that needs improving, correcting or re-drafting in response to teacher's marking and feedback.
	Gwaith cywir Cwrdd â'r meini prawf llwyddiant	Correct work Meets the success criteria
	Ardderchog Gwaith neu bwynt arbennig o dda	Excellent Extremely good work or point
	Gwaith yn anghywir Gwall neu gamgymeriad yn y gwaith	Incorrect work Work contains an error or mistake
	Aneglur Gwaith ddim yn gwneud synnwyr	Unclear Work doesn't make sense
	Rhywbeth coll Gair neu ymadrodd ar goll	Something missing Missing word or phrase
	Sillafu Gair wedi ei gam-sillafu	Spelling Word spelled incorrectly
	Prif-lythyren Camgymeriad gyda phrif-lythyren	Capital letter Error with capital letter
	Atalnodi Atalnod anghywir neu ar goll	Punctuation Missing or incorrect punctuation
	Paragraff newydd Mae angen dechrau paragraff newydd	New paragraph You need to start a new paragraph
	Treiglo Camgymeriad treiglo	Mutation Mutation error (in Welsh)
	Unedau Unedau coll neu anghywir	Units Incorrect or missing units
	Labelu Labelu ar goll neu anghyflawn	Labelling Labelling is missing or incomplete
	Cywiro Nifer o weithiau sydd angen ei gywiro	Correct Number of times to be corrected

APÊL - LLYFRAU YSGOL

Plis allwch chi daro golwg i weld os oes gennych lyfrau sydd yn perthyn i'r ysgol.

Mae ambell i ddisgybl yn anghofio dychwelyd gwerslyfrau neu lyfrau llyfrgell.

Buaswn yn gwerthfawrogi petaech yn gallu dychwelyd unrhyw lyfrau o'r fath i'r ysgol os gwelwch yn dda.

Diolch yn fawr am eich cymorth gyda hyn.

DILYNWCH ADRAN Y GYMRAEG—@CYMRAEGBOTWNNOG



Mae gan Adran y Gymraeg gyfrif Trydar. **Dilynwch ni** er mwyn derbyn gwybodaeth am ein gweithgareddau a dysgu mwy am waith yr Adran o ddydd i ddydd. Byddwn yn rhannu unrhyw lwyddiannau adrannol ar y cyfrif yma.

TYNNU LLUNIAU PLANT

O dro i dro bydd yr ysgol / Cyngor Sir / y Wasg eisiau tynnu lluniau o weithgareddau'r ysgol. Bydd rhai o'r lluniau yn cael eu hanfon i'r papur newydd, **Llanw Llŷn** neu yn cael eu defnyddio mewn cyhoeddiadau neu ar wefan yr ysgol neu'r Cyngor neu at bwrpas asesu gwaith llafar ac ymarferol.

Os nad ydych yn fodlon i'ch plentyn gael ei gynnwys mewn lluniau, yna cysylltwch â'r ysgol i nodi hynny os gwelwch yn dda.

CEFNOGAETH I'CH MAB/MERCH

Yn Ysgol Botwnnog 'rydym yn ymdrechu i roi'r gofal gorau i bob disgybl ac os yw eich mab/merch yn cael amser anodd neu yn cael trafferthion gyda'u gwaith neu broblemau lles yna mae gennym nifer o arbenigwyr a all eu helpu:

Mr Geraint Hughes	Dirprwy Brifathro / Swyddog Lles
Mrs Alaw Jones Japheth	Lles y Merched
Mrs Ann James.....	Anogwr Dysgu / Mentor
Mrs Carol Pilling.....	Anogwr Dysgu / Mentor
Mrs Wendi Jones	Cwnselydd
Mrs Carys Hughes	Swyddog Lles Addysg yr Awdurdod
Ms Bethan Jones.....	Nyrs Ysgol

Os hoffech i ni gyfeirio eich mab/merch at un o'r uchod yna cysylltwch â Mr Geraint Hughes, y Dirprwy Brifathro.

DIOGELU PLANT

Un o brif flaenoriaethau'r ysgol ydi cadw disgyblion yn ddiogel. Os oes ganddoch amheuon am ddiogelwch unrhyw blentyn yna Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yr ysgol ydi Mr Geraint Hughes, neu gallwch gysylltu â Swyddog Sirol Amddiffyn Plant yng Nghaernarfon ar 01286 679552.

BWLIO

Pan mae achos o fwlio mae staff yn gwneud eu gorau i rwystro'r bwlio rhag digwydd eto. Mae Polisi Atal Bwlio yn yr ysgol gyda strategaethau i gefnogi unrhyw ddisgybl sy'n cael ei fwlio ac i ddelio â'r bwli. 'Rydym am i'n pobl ifanc fod yn hapus a diogel yn yr ysgol. Nid ydym am weld unrhyw ddisgybl yn dioddef bwlio. Mae'r disgyblion yn gwybod y gallant gysylltu â'r Bydis neu unrhyw aelod o'r staff i adrodd am unrhyw fath o fwlio.

Mi wyddoch hefyd fel rhieni / gwarcheidwaid y gallwch gysylltu â mi neu'r dirprwy i drafod bwlio neu i adrodd am fwlio (bwlio yn yr ysgol, ar y bws neu trwy'r ffôn symudol neu safleoedd cymdeithasol fel 'Facebook', 'Twitter'.)

Bydd materion yn ymwneud â bwlio yn cael blaenoriaeth gennym fel ysgol. **Nid yw bwlio yn dderbyniol yn Ysgol Botwnnog.** Mae posteri gwrth-fwlio yn amlwg ar waliau'r ysgol ac yn ategu y neges hon. Mae'n gyfrifoldeb ar ddisgyblion a staff i sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel drwy adrodd am unrhyw achos o fwlio.

Gallech hefyd ymweld â gwefan www.bullying.co.uk a llawer o wefannau tebyg am gyngor pellach. (Gweler y dudalen *Gwefannau Defnyddiol* ar wefan yr ysgol <http://www.ysgolbotwnnog.org/gwefannau-defnyddiol.html>)

GWISG YSGOL

Diolch am eich cydweithrediad gyda'r wisg ysgol.

Eleni, bydd cyngor yr ysgol yn trafod addasu rheolau gwisg ysgol ar gyfer cyfnodau o dywydd poeth.

Hoffwn dderbyn eich barn ynglŷn â chaniatau gwisgo shorts pan fo'r tywydd yn boeth.

Hoffwn eich hatgoffa am reolau esgidiau ysgol. Rhaid i unrhyw esgidiau neu trainers fod yn ddu yn unig. Ni chaniateir unrhyw ysgrifen, logos, gwadnau na charrai nad ydynt yn ddu (NID LLWYD!)

